

CYFARWYDDWR CYMUNEDOL FRÂN WEN

**PECYN
SWYDD**

SWYDD

Rydym yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig sydd yn angerddol am theatr a'r celfyddydau fel dull o hyrwyddo datblygiad unigol a chymunedol.

Ydych chi'n meddu'r sgiliau i fod yn arweinydd creadigol y dyfodol?

Os hoffech chi drafod y swydd wrth baratoi cais, cysylltwch â Chyfarwyddwr Artistig Frân

Wen, Gethin Evans drwy **gethin@franwen.com**.



FRAN WEN A'R GYMUNED

Rydym wedi ein gwreiddio yn ein cymunedau, yn gwrando ar leisiau sydd heb eu clywed ac yn defnyddio'r celfyddydau i ddatblygu unigolion hyderus a chymunedau ffyniannus a chyfrannu'n bositif tuag at iechyd a llesiant. Gyda dyfodiad Nyth, ein cartref newydd ym Mangor ar y gorwel, rydym yn edrych ymlaen i groesawu unigolyn deinamig, angerddol a hael i'r tîm i ganolbwyntio ar waith cymunedol ym Mangor ac ar draws gogledd orllewin Cymru. Mae'r rôl gyda ffocws ar wreiddio Frân Wen yn ddyfnach i gymunedau gan sicrhau partneriaethau hir dymor gyda sefydliadau a mudiadau a darganfod llwybrau creadigol newydd i bobl ifanc a chymunedau, a hynny drwy brosiectau creadigol gonest ac uchelgeisiol.

Bydd y rôl newydd yma yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a Chyfarwyddwr Cwmni Ifanc Frân Wen i ddatblygu, rheoli a gweithredu'r prosiectau penodol Nythu, Nabod a Fa'ma.



Y SWYDD

NYTHU

Mae Frân Wen yn y broses o ail-bwrpasu Eglwys Santes Fair ym Mangor yn hwb creadigol i hyrwyddo llesiant pobl ifanc a’r gymuned drwy gyfrwng y celfyddydau. Bydd ‘Nyth’ yn hwb sy’n mynnu gwneud pethau’n wahanol gan ddefnyddio’r celfyddydau i alluogi pobl ifanc, artistiaid a chymunedau i ymwneud â’u treftadaeth, i ddarganfod atebion, i dathlu eu lleisiau a chreu ffyrdd newydd o fod.

Rydym yn cydnabod bod llawer o dirwedd pensaernïol yr ardal, gan gynnwys Eglwys Santes Fair, wedi ei ffurfio gan gyfoeth y fasnach gaethwasiaeth. Drwy gydweithio gyda phobl ifanc yr ardal, cymuned cynhenid Hiraef a chymunedau lleiafrifoedd ethnig dinas Bangor byddwn yn archwilio’r hanes yma ac yn ysgogi trafodaeth a mynegiant creadigol mewn ymateb iddo. Bydd Nythu yn brosiect aml-gelfyddydol fydd yn mabwysiadu’r model o gyd-greu gyda chyfranogwyr gyda’r bwriad o wella ein dealltwriaeth o’n treftadaeth ac amrywiaeth yr ardal ac ennyn ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol. Rydym am ddathlu ethos agored a chroesawgar yr adeilad ar ei newydd wedd ac am gofleidio’r cyfle i gydnabod yr hanes tywyll a berthyn iddi gyda llygaid agored ar symud ymlaen yn hyderus i ddyfodol mwy cyfartal a chynhwysol. (Cyfwerth â 50% o’r swydd)

NABOD

Mae Frân Wen a Gisda wedi sefydlu partneriaeth newydd i hyrwyddo pŵer trawsnewidiol y celfyddydau ym mywydau pobl ifanc bregus sy’n cael eu tan-gynrychioli. Mae ‘Nabod yn brosiect hir dymor fydd yn cynnig cyfleon amrywiol i artistiaid aml-gelfyddydol gydweithio gyda chwmni o bobl ifanc sy’n derbyn gwasanaeth Gisda i gyd-greu theatr eofn sy’n dyrchafu llais yr unigolyn ac sy’n ennyn newid cymdeithasol. (Cyfwerth â 25% o’r swydd)

FA’MA

Prosiect deinamig sy’n datblygu perthynas gyda phobl ifanc mewn 2 gymuned yn flynyddol - er mwyn galluogi’r gymuned ehangach i weld strydoedd a hanesion cyfarwydd eu hardaloedd mewn modd anghyfarwydd - a hynny drwy lygaid pobl ifanc. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau Dolgellau a Chaergybi dros y flwyddyn nesaf. Mae’r prosiectau un tro byr yma yn adeiladu perthnasau gyda chymunedau ar draws yr ardal ac yn gyfle i hyrwyddo gweithgareddau’r Cwmni Ifanc gyda phobl ifanc. (Cyfwerth â 25% o’r swydd)



PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Cydweithio ag aelodau staff priodol ac artistiaid llawrydd i ddatblygu, rheoli a gweithredu prosiectau celfyddydol cymunedol penodol sef Nythu, ‘Nabod a Fa’ma gan sicrhau eu bod yn cefnogi strategaeth gyfranogi Frân Wen ac yn cyfrannu at weledigaeth a gwerthoedd y cwmni.
- Datblygu perthnasau a phartneriaethau cadarnhaol gyda sefydliadau cymunedol er mwyn mwyafu cyfleon i gydweithio er budd ein cymunedau.
- Gwreiddio’r prosiectau penodol yn strategaeth cyfranogi’r cwmni er mwyn sicrhau gwaddol a dilyniant hir dymor.

CREADIGOL

- Cydweithio’n agos gyda’r Cyfarwyddwr Artistig a Chyfarwyddwr Cwmni Ifanc i ddatblygu a gwireddu prosiectau cyfranogi ac ymgysylltu uchelgeisiol, cynhwysol a grymusol fel rhan o raglen artistig y cwmni.
- Cydweithio gyda chymunedau er mwyn sicrhau bod y gwaith a’r prosiectau yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithasol yr ardal.
- Creu prosiectau creadigol o’r safon artistig uchaf.
- Datblygu dealltwriaeth y cwmni o’r gymuned leol ac ardaloedd ehangach Gogledd Orllewin Cymru.
- Rheoli prosiectau cymunedol - yn benodol Nythu, Nabod a Fa’ma.
- Datblygu, gweithredu a hyrwyddo digwyddiadau i annog aelodau’r gymuned i gymryd rhan a phrofi gweithgareddau ehangach y cwmni.
- Cydweithio gyda’r tîm marchnata er mwyn sicrhau bod prosiectau yn cael eu hyrwyddo i’r eithaf a datblygu ffyrdd o gynyddu proffil y cwmni yn y gymuned.
- Trafod gyda’r Cyfarwyddwr Gweithredol ynglyn â chodi arian i gefnogi agweddau o’r rhaglen a chyfrannu pan fo angen at gefnogi ceisiadau nawdd.
- Gweithredu gyda safonau uchel ac mewn modd gynhwysol.

RHEOLI PROSIECT

- Cynllunio, paratoi a gwireddu strategaeth recriwtio gynhwysol sydd yn estyn allan i gymunedau eang, gan sicrhau mynediad teg i bawb.
- Cynnal gweithdai, digwyddiadau a pherfformiadau amrywiol mewn amryw o leoliadau er mwyn cynnig blas o’r weithgaredd.
- Sicrhau awyrgylch diogel sy’n ennyn ymddiriedaeth cyfranogwyr.
- Cynrychioli’r cwmni mewn cyfarfodydd a rhwydweithiau amrywiol sy’n gysylltiedig â’r rhaglen a phrosiectau penodol er mwyn sicrhau cydlynid strategol.
- Arwain ar gofnodi datblygiad y prosiect gan gydweithio gydag artistiaid digidol llawrydd i wneud hynny.
- Cyfrannu at y broses o werthuso prosiectau er mwyn mesur effaith yn unol ag amcanion a chanlyniadau sydd wedi eu gosod.
- Recriwtio artistiaid cymunedol ac arbenigwyr mewn meysydd treftadaeth a gwaith cymdeithasol ar gyfer gweithdai celfyddydol rheolaidd.
- Adnabod anghenion hyfforddiant a chyfleon gwirfoddoli ar gyfer y prosiectau.

CYFFREDINOL

- Cyfrannu at egwyddorion ac amcanion cyffredinol Frân Wen.
- Cydymffurfio a chyfrannu at bolisiau a chynlluniau gweithredu Frân Wen gan gynnwys rhai yn ymwneud â Chydraddoldeb (amrywiaeth, mynediad, cyfleon cyfartal), Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, Iechyd a Diogelwch a’r Amgylchedd.
- Cynrychioli Frân Wen mewn cyfarfodydd a chynadleddau perthnasol, fel bo’r angen.
- Cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad Nyth - cartref newydd y cwmni.
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill yn ôl y galw.
- Cynrychioli a bod yn llysgennad i Frân Wen a’i bartneriaid.

Darperir hyfforddiant amrywiol yn ystod cyfnod y cytundeb.

Noder y byddwn yn recriwtio gweithwyr eraill i gefnogi’r prosiectau uchod dros y misoedd nesaf.

CHI

Rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Cymunedol gyda dychymyg ac uchelgais.

Efallai eich bod yn artist, yn gynhyrchydd, yn reolwr prosiect neu'n weithiwr cymunedol.

Mae gennym ddiddordeb clywed gan unigolion sydd yn gyffrous am bosibiliadau'r rôl a gallwn

gynnig pecyn mentora / hyfforddiant i'ch cefnogi.

Oes gennych chi...

- Ddychymyg, uchelgais ac angerdd i gefnogi amcanion artistig y cwmni mewn cyfnod cyffrous yn ei hanes.
- Profiad o gydweithio gyda grwpiau cymunedol neu sefydliadau gan adeiladu a chynnal partneriaethau yn gadarnhaol ac effeithiol.
- Angerdd ac ymrwymiad i sicrhau cynhwysiant a mynediad i bawb i'r celfyddydau.
- Sgiliau cyfathrebu clir ac argyhoeddedig yn y Gymraeg a'r Saesneg (llafar ac ysgrifenedig) a'r hyblygrwydd i addasu eich steil o gyfathrebu i anghenion grwpiau amrywiol.



- Y gallu i gymryd ymagwedd empathetig i unigolion o gefndiroedd amrywiol.
- Diddordeb a dealltwriaeth o lesiant o fewn cyd-destun celfyddydol.
- Sgiliau rheoli prosiect gwych gyda phrofiad o weithredu a chydlynu prosiectau o fewn amser a chyllideb.
- Profiad o arwain a chydweithio gydag artistiaid llawrydd gan greu awyrgylch agored a chadarnhaol lle gall unigolion ffynnu.
- Diddordeb yng nghyd-destun cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y mae Frân Wen yn gweithio ynddi.
- Ymrwymiad a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd diwylliant a hunaniaeth Cymru i bob agwedd o waith Frân Wen.
- Hyder i gymryd risg.
- Agwedd gadarnhaol gyda lefel uchel o gymhelliant personol a'r gallu i weithio'n annibynnol ac mewn tîm.

DISGWYLIWN I'R CANLYNOL FOD YN **BWYSIG I CHI**

- Ehangu mynediad i'r celfyddydau drwy annog mwy i gymryd rhan.
- Pŵer trawsnewidiol y celfyddydau.
- Pobl ifanc a chymunedau.
- Celfyddyd perthnasol ac uchelgeisiol.
- Prosesau creu theatr arloesol a newydd.
- Hyrwyddo cynhwysedd a chyraddoldeb.
- Cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Hunaniaeth y Gymru gyfoes.

PROSES RECRIWTIO

Mae'r broses recriwtio yn cael ei arwain gan Fwrdd Rheoli Frân Wen mewn ymgynghoriaeth â Phanel Ieuenctid y cwmni a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Bydd eich cais ac unrhyw wybodaeth bersonol cysylltiedig yn cael ei storio a'i brosesu yn unol â'n Polisi Data a'i ddinistrio ar ôl 6 mis. Os ydych yn cael eich penodi a'ch cyflogi gennym, bydd yr wybodaeth a gyflwynwch yn cael ei gadw'n ddiogel a bydd yn rhan o'ch cofnod cyflogaeth.

CYFLEON CYFARTAL AC AMRYWIAETH

Os ydych angen gwybodaeth mewn fformat gwahanol neu os oes gennych unrhyw ofynion mynediad ar gyfer y cyfweiliad, cysylltwch â Nia Jones drwy nia@franwen.com.

Nid yw Frân Wen yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth neu wahaniaeth arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae Frân Wen yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.



TELERAU'R SWYDD

Teitl y swydd:	Cyfarwyddwr Cymunedol.
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr Artistig.
Cytundeb:	Cynigir cytundeb am 18 mis yn y lle cyntaf gyda phosibilrwydd o estyniad pellach.
Tâl:	£23,500 - £25,000.
Dyddiad cychwyn:	Mor fuan â phosib. Os yn briodol, gellir dod i gytundeb ynglyn â sut gellir rheoli unrhyw waith sydd eisoes wedi ei ymrwymo iddo.
Lleoliad gwaith:	Mae prif safle y cwmni ym Mangor, ond oherwydd natur y gwaith bydd disgwyl i deilydd y swydd deithio yn rheolaidd. Bydd gofyn i ddeilydd y swydd fyw o fewn pellter teithio dyddiol i Frân Wen.
Oriau wythnosol:	Disgwylir i'r deilydd weithio 38 awr yr wythnos. Oherwydd natur y gwaith, bydd angen gweithio oriau anghymdeithasol gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.



Cyfnod Prawf	Bydd yr apwyntiad yn destun cyfnod prawf llwyddiannus o 6 mis.
Rhybudd i adael	Cyfnod rhybudd o 1 mis .
Pensiwn	Cynigir cynllun pensiwn cystadleuol.
Buddion eraill	Talebau gwarchod plant. Tocynnau i fynychu cynyrchiadau a digwyddiadau.
Cofnod Troseddol	Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974). Oherwydd natur y swydd bydd Frân Wen yn gwneud ymholiadau trwy'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ynghylch gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu bobl fregus.
Canolwyr	Bydd cynnig cyflogaeth yn amodol ar dderbyn tystlythyrau boddhaol.

PROSES YMGEISIO

Os am wneud cais, dylid cyflwyno’r wybodaeth isod:

- Cais yn amlinellu eich addasrwydd a’r rheswm dros eich diddordeb yn y swydd.
Rhowch ystyriaeth i’r swydd ddisgrifiad a’r manyldeb personol gan nodi sut y gallwch chi wneud cyfraniad gwerthfawr i Frân wen yn ystod cyfnod allweddol o bwys yn ei hanes ac i brosiectau penodol. Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn ysgrifenedig, ar ffurf fidio neu unrhyw gyfrwng creadigol arall o’ch dewis chi.
- CV cyfredol.

Dylai’r cais amlinellu’r canlynol:

- Eich cymhwysedd am y swydd.
- Eich rheswm dros ymgeisio
- Profiadau blaenorol a pherthnasol.
- Eich uchelgais ar gyfer rhaglen gymunedol Frân Wen.
- Beth mae rhaglen gymunedol gynhwysol yn ei olygu i chi?

Rhowch wybod yn ogystal am unrhyw gynyrchiadau / prosiectau creadigol rydych yn gweithio arnynt ar hyn o bryd.

Anfonwch yr wybodaeth i sylw Nia Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol:

nia@franwen.com

neu drwy'r post i

Frân Wen, Uned 13, Canolfan Deiniol, Bangor, Gwynedd. LL57 1NW.

Os hoffech sgwrs anffurfiol a chyfrinachol ynglyn â’r swydd, mae croeso i chi gysylltu gyda Nia Jones ar yr e-bost uchod.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Dyddiad cau:	10yb, 4 Gorffennaf 2022
Hysbysu o gyfweliad:	6 Gorffennaf 2022
Cyfweliad:	8 Gorffennaf 2022
Cychwyn swydd:	Mor fuan â phosib wedi’r penodiad.

***Ariennir y swydd hon yn rhannol gan Y Gronfa Treftadaeth a’r Loteri
Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.***

FRANWEN.CO.N

FRÂN WEN